

CYFANSODDIAD

Ymddiriedolaeth Gymunedol Fferm Wynt Tir Mostyn a Foel Goch(Nantglyn)

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu fel modd o ddsbarthu'n deg a rhesymol yr arian sy'n cael ei ddyrannu'n flynyddol gan Tir Mostyn a Foel Goch Cyf (y "Perchennog"), cwmni cyfyngedig sy'n berchen ar ac yn gweithredu'r datblygiad fferm wynt a adwaenir fel Tir Mostyn / Foel Goch gerllaw Nantglyn yn Sir Ddinbych. Eiddo cleientiaid buddsoddiad diamod HgCapital (HgC) yw'r Perchennog ar hyn o bryd (2006).

Mae Datganiad o Ymddiriedaeth wedi'i gytuno rhwng y partion a rhaid cadw at delerau'r Ymddiriedaeth hon bob amser. Bydd y Datganiad o Ymddiriedaeth yn cael y flaenoriaeth bob amser. Mae pob un o gymunedau Llanrhaeadr YC, Cyffylliog a Nantglyn i benodi Bwrdd Ymddiriedolwyr. Am resymau ymarferol, megis galluogi cynrychiolwyr y Perchennog i fynyachu cyfarfodydd y tair Ymddiriedolaeth, dylai cyfarfodydd gael eu cynnal, ble bynnag y bo modd, ar yr un diwrnodau neu ar ddyddiau olynol. Dylai pob un o'r Byrddau gyfathrebu â'r lleill hefyd ynglŷn â cheisiadau gan fuddiolwyr er mwyn osgoi dyblygu a chamddefnydd gan ymgeiswyr.

1 Yr Arian

Mewn llythyr dyddiedig Chwefror 17^{eg} 2006 gwna'r Perchennog y darpariaethau a'r gofynion canlynol:

1. Bydd y Perchennog yn darparu cronfa o £25,000 y flwyddyn i'w rannu rhwng tair cymuned Nantglyn, Llanrhaeadr a Chyffylliog.
2. Hyd at ac yn cynnwys 2010 bydd Ymddiriedolaeth Nantglyn yn derbyn £10,000 y flwyddyn. Bydd Ymddiriedolaethau Llanrhaeadr a Chyffylliog yn derbyn £7,500 y flwyddyn.
3. Wedi hynny, am y rhan honno o Gyfnod yr Ymddiriedolaeth 25 mlynedd sy'n weddill, bydd pob un o'r cymunedau'n derbyn swm blynyddol cyfartal, sef £8,333.
4. Bydd y gronfa flynyddol o £25,000 yn fynegrifol â'r Mynegrif Prisiau Adwerthol (RPI), gyda'r addasiad cyntaf yn cael ei wneud yn Ebrill 2007.

5. Bydd y taliad cyntaf, sy'n ddyledus yn Ebrill 2006 [*neu cyn gynted wedi hynny ag y bo pob Bwrdd Ymddiriedolwyr yn ei le*] yn cynnwys blwyddyn rannol 2005 yn ôl £2,000 y gymuned a'r cyfan o ddyraniad 2006 pob cymuned.
6. Bydd arian dilynol yn cael ei flaendalu fesul cyfrannau 50% pob Ebrill a Hydref.
7. Ar ôl 2007 caiff Bwrdd Ymddiriedolwyr ofyn am hyd at ddwy flynedd o flaendaliad arian ar gyfer prosiectau mwy.
8. Cyn rhoi unrhyw gymhorthdal mae'r Ymddiriedolwyr i gyflwyno adroddiad i'r Perchennog i'w gymeradwyo.
9. Mae unrhyw hyrwyddiad neu gyhoeddusrwydd sy'n ymwneud â phrosiectau neu weithgareddau a gaiff eu hariannu gan Gronfa'r Ymddiriedolaeth i gyfeirio'n benodol at y ffaith yma.
10. Ni fyddir yn caniatáu unrhyw weithgaredd sydd wedi'i dargedu at neu'n niweidiol i Fferm Wynt Tir Mostyn a Foel Goch neu'n gwrthwynebu datblygu a chodi ffermydd gwynt yn gyffredinol.
11. Ni fyddir yn caniatáu unrhyw weithgaredd yr ystyrir'r Perchennog ei fod yn peri rhwyg ymhlith y gymuned leol.

2 Amcanion Cyffredinol

Yn ogystal â'r amcanion a ddisgrifiwyd yn y Datganiad Ymddiriedolaeth, pwrpas y gronfa yw cynorthwyo gyda phrosiectau a chynlluniau cymunedol a gynigiwyd i ac a gytunwyd gan y Bwrdd. Ni fydd prosiectau a fyddai'n cael eu cyllido fel arfer naill ai gan y Llywodraeth Ganolog neu'r Cyngor Sir yn cael eu hystyried yn gynlluniau bona fide, ac ni fydd cynlluniau yr ystyrir eu bod yn dod o fewn cyfrifoldeb ariannol Sefydliadau eraill y Llywodraeth, megis Bwrdd Iechyd Lleol neu'r Heddlu, yn cael eu hystyried ychwaith.

3 Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd i gynnwys hyd at saith o Ymddiriedolwyr ac mae bob amser i gynnwys dau berson a enwebir gan y Cyngor Cymuned Lleol. Bydd yr ymddiriedolwyr cyntaf sydd ar ôl yn cael eu penodi gan Gyngor Cymuned Nantglyn, ar ôl derbyn ceisiadau gan aelodau'r gymuned leol.

Trwy gydol oes yr Ymddiriedolaeth dylai'r Bwrdd, hyd ag y mae'n bosibl, gynrychioli rhychwant eang o'r gymuned a bydd pob aelod naill ai'n byw yn y gymuned, neu'n gweithio yn

y gymuned neu bydd â chysylltiadau agos â'r gymuned. Er hynny, ar wahân i'r ddau Ymddiriedolwr a enwebwyd gan y Cyngor Cymuned, nid oes yr un sefydliad neu gwmni i fod ag aelodaeth ffurfiol ar y Bwrdd.

Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr yw dewis Ymddiriedolwyr newydd fel y bo swydd wag yn codi. Ble mae'r swydd wag honno'n un o ddau gynrychiolydd y Cyngor Cymuned, bydd yr Ymddiriedolwyr yn gwahodd y Cyngor Cymuned i enwebu Ymddiriedolwr arall i'w cynrychioli. Ble mae'r swydd wag honno'n dilyn ymddiswyddiad un o'r Ymddiriedolwyr eraill, bydd y Bwrdd yn gwahodd ceisiadau gan aelodau'r gymuned drwy osod hysbysiad am gyfnod o fis ar hysbysfwrdd y pentref. Yna bydd yr Ymddiriedolwyr yn dewis Ymddiriedolwr newydd gan ddal sylw dyledus ar yr angen i gynnal rychwant eang o gynrychiolaeth.

Heb ystyried yr Ymddiriedolwyr hynny a enwebwyd gan y Cyngor Cymuned, ble na fu dim newid yn aelodaeth Bwrdd yr Ymddiriedolwyr am gyfnod o 4 blynedd, ac nad oes yr un Ymddiriedolwr yn dymuno ymddiswyddo, mae'r Ymddiriedolwyr i dynnu byrra'i docyn ac mae dau i ymddiswyddo. Yna bydd y Bwrdd yn gwahodd ceisiadau ac yn dewis Ymddiriedolwyr newydd fel y disgrifiwyd uchod. Bydd cyn-Ymddiriedolwyr yn rhydd i ymgeisio.

Heblaw ble mae Ymddiriedolwr yn gweithredu mewn cymhwyster proffesiynol ar wahoddiad penodol y bwrdd, nid yw'r ymddiriedolwyr i dderbyn dim tâl o unrhyw fath (mae hyn i gynnwys costau teithio). Serch hynny, fe allant dderbyn ad-daliad am brynu deunydd ysgrifennu, argraffu, stampiau post ayb ar ôl cyflwyno derbynebau priodol.

Ni fydd unrhyw unigolyn sydd â chofnod troseddol neu sy'n dod i feddiant cofnod troseddol neu sydd wedi'i atal rhag dal swydd o unrhyw fath yn rhinwedd cofnod o'r fath neu drwy fethdaliad yn gymwys i wasanaethu ar y Bwrdd.

4 Cyfarfodydd.

Mae'r Bwrdd i gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac mae i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Bydd pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ac mae'r Perchennog i'w wahodd i anfon cynrychiolydd/wyr i'r cyfarfod. Mae dim llai na 21diwrnod o rybudd o unrhyw gyfarfod i'w roi drwy gyfrwng hysbysiad dwyieithog yn rhoi'r dyddiad, amser, lle ac agenda'r cyfarfod ar hysbysfwrdd y pentref. Mae'r Bwrdd i'w awdurdodi, yn ôl ei ddisgresiwn yn llwyr, i gyfarfod yn breifat pan fydd yn ystyried materion cyfrinachol. Bydd y rhain yn cynnwys trafodaethau

ynghylch ceisiadau i ddod yn Ymddiriedolwr ac ynghylch teilyngdod cymharol unrhyw gais/ geisiadau neilltuol am gyllid.

Bydd blwyddyn waith y Bwrdd o Orffennaf 1^{af} i Fehefin 30^{ain} pob blwyddyn. Bydd y flwyddyn waith gyntaf yn dod i ben ar Fehefin 30^{ain} 2007. Rhwng Ebrill 6^{ed} a Mehefin 30^{ain} pob blwyddyn bydd y Bwrdd yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i adrodd ar weithgareddau'r flwyddyn flaenorol ac i gyflwyno'r cyfrifon blynyddol.

Mae cyfarfod o'r Bwrdd i ddilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pryd mae'r Bwrdd i ethol ei Gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd drwy fwyafrif syml ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd ail gyfarfod y Bwrdd ac unrhyw gyfarfodydd pellach ym mhob blwyddyn yn cael eu galw gan yr Ymddiriedolwyr pan fydd angen.

Mae cyfarfodydd arbennig [*brys*] i'w galw fel yr amlinellir yn y Datganiad o Ymddiriedaeth.

Bydd hi yn ôl disgrisiwn y cadeirydd yn unig pa un a fydd unigolion heblaw ymddiriedolwyr yn cael siarad mewn unrhyw gyfarfod.

Bydd pob pleidlais a gymerir yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr drwy fwyafrif syml a bydd gan y cadeirydd bleidlais fwrw.

Mae cofnodion pob cyfarfod i'w cadw gan yr ysgrifennydd a chopïau i'w dosbarthu i bob Ymddiriedolwr o fewn 14 diwrnod, ynghyd â thestun dwyieithog adroddiad cyffredinol o'r cyfarfod sydd i gynnwys, ble mae'n bosibl, ddyddiad y cyfarfod nesaf. Dylai unrhyw Ymddiriedolwr sy'n dymuno gwneud sylw ar yr adroddiad cyffredinol wneud hynny o fewn 7 diwrnod. Wedi hynny mae'r adroddiad cyffredinol hwn i'w roi ar hysbysfwrdd y pentref am gyfnod o fis ac mae copi i'w anfon at y Perchennog. Mae'r cofnodion i'w harwyddo'n briodol gan y cadeirydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Cworwm fydd pum Ymddiriedolwr.

Caiff y Bwrdd gyflogi person annibynnol i weithredu fel ysgrifennydd ac os felly bydd trydydd swyddog y Bwrdd yn is-gadeirydd.

5 Gwrthdaro Buddiannau

Er gwaethaf adran 7.9.1 a 7.9.2 y Datganiad o Ymddiriedaeth, dylai unrhyw aelod o'r bwrdd sydd ag unrhyw fuddiannau penodol, personol mewn unrhyw fater sydd dan ystyriaeth gan y Bwrdd gyhoeddi buddiannau o'r fath a dylent absenoli eu hunain o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod ble gallai unrhyw wrthdaro buddiannau fod yn berthnasol. Bydd peidio â chyhoeddi buddiannau o'r fath yn gwneud yr aelod yn anghymwys i barhau i wasanaethu ar y Bwrdd ac fe all hefyd beryglu penderfyniad y Bwrdd ar y mater dan drafodaeth.

6. Rhaid i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd ag unrhyw fuddiannau cyllidol neu ariannol mewn unrhyw ddatblygiad fferm wynt sydd mewn bod neu a fydd yn digwydd yn y dyfodol ddatgan hyn wrth y Bwrdd a, ble mae materion yn mynd yn eu blaen, adael i'r Bwrdd wybod am ei fuddiannau ef neu hi yn y datblygiad. Disgresiwn y Bwrdd fydd yn penderfynu a all unrhyw Ymddiriedolwr o'r fath aros ar y Bwrdd.

6. Cyllid

Bydd trysorydd cronfeydd y Bwrdd yn cadw cyfrifon banc a/neu gymdeithas adeiladu ar ran y Bwrdd yn enw 'Ymddiriedolaeth Gymunedol Fferm Wynt Tir Mostyn a Foel Goch (Nantglyn)' ac yn dal sylw dyledus ar yr angen i ennill y cyfraddau llog gorau sydd ar gael am arian a ddelir ar adnau. Bydd y trysorydd yn ceisio ennill y statws treth gorau ar gyfer arian y Bwrdd.

Bydd y trysorydd yn adrodd ar statws ariannol yr Ymddiriedolaeth ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd. Bydd y Perchennog yn gallu gofyn am ddatganiadau ariannol a gwybodaeth ariannol arall drwy roi 30 diwrnod o rybudd ar unrhyw adeg.

Blwyddyn ariannol yr Ymddiriedolaeth fydd Ebrill 6^{ed} tan Ebrill 5^{ed} y flwyddyn ganlynol. Bydd y flwyddyn ariannol gyntaf yn dod i ben ar Ebrill 5^{ed} 2007.

Rhaid i bob siec neu gais i godi arian o gyfrifon cymdeithas adeiladu ddwyn llofnodion a roddwyd gan o leiaf ddau Ymddiriedolwr.

Bydd y trysorydd yn paratoi cyfrifon blynyddol i'w cymeradwyo gan y Bwrdd ac i'w cyflwyno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd y cyfrifon yn cael eu harchwilio gan rywun annibynnol, gyda phrofiad addas, a ddewiswyd gan y Bwrdd. Os nad oes neb o'r fath ar gael caiff y Bwrdd gyflogi archwilydd. Ynghyd â'r rhybudd o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, mae copi o'r cyfrifon blynyddol archwiliedig i'w anfon at y Perchennog ac mae copi i'w roi ar hysbysfwrdd y pentref.

Gall Arian Cyfatebol a Benthycia Darbodus gael eu hystyried yn elfen o reoli'r gronfa a'u defnyddio i fwyhau'r budd i'r gymuned ble mae'n briodol.

7. Dyrannu arian.

Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pob blwyddyn bydd ceisiadau'n cael eu gwahodd i ddyrannu cymorthdaliadau drwy roi hysbysiad dwyieithog ar hysbysfwrdd y pentref am gyfnod o fis. Gall ceisiadau gael eu gwneud ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a rhaid iddynt fod ar bapur i'r Bwrdd gan unigolion neu sefydliadau o fewn ffin etholiadol Cyngor Cymuned Nantglyn. Mewn amgylchiadau eithafol, fodd bynnag, byddir yn caniatáu i'r Bwrdd ddyrannu arian i ymgeiswyr neu achosion y tu allan i'r ffin hwn. Fel y darperir ar ei gyfer yn y Datganiad o Ymddiriedaeth, gall y Bwrdd gronni'r gronfa yn ôl eu disgrisiwn cyhyd â bod y nod terfynol o fudd i'r gymuned yn cael ei gynnal.

Caiff y Bwrdd, yn ôl ei ddisgrisiwn llwyr, gyhoeddi rhestr o brosiectau o bryd i'w gilydd ble y bydd, am gyfnod o amser, yn tueddu i ystyried gyda ffafr arbennig unrhyw geisiadau sy'n hyrwyddo datblygiad prosiectau o'r fath.

Cyfeirir at dderbynwyr arian fel "Buddiolwyr"

8 Dwyieithrwydd

Byddir yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd wneud cais i'r Bwrdd yn Gymraeg neu yn Saesneg a byddant yn derbyn ymateb yn unol â hynny. Efallai na fydd hi'n ymarferol am resymau economaidd i ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd, ond dylid rhoi ystyriaeth i anghenion unrhyw ymgeisydd yn y cyswllt hwn. Caiff y Bwrdd gyflogi cyfieithydd.

Mehefin 2006